# Newyddion GO!

| Darganfod - Cyfoethogi - Cysylltu

## Annwyl ddarllenydd

Croeso i'n Rhifyn y Gaeaf 2025! Gobeithiwn eich bod wedi ymgartrefu i fywyd ym Mhrifysgol Abertawe erbyn hyn, a'ch bod chi'n dechrau ymgyfarwyddo â'r ffordd Gymreig o fyw!

Dylai'r cylchlythyr hwn eich helpu i gael mwy o wybodaeth am y mathau o ddigwyddiadau rydym yn eu cynnig, ein cynllun gwirfoddoli sydd ar gael a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnig.

Nod y digwyddiadau hyn yw rhoi'r cyfle i chi gwrdd â phobl newydd, dod i adnabod yr ardal leol ac, yn bwysicaf oll, fwynhau misoedd cyntaf eich profiad yn y Brifysgol!

Rydym hefyd yn cynnal ein gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn!

Os oes gennych awgrymiadau ar gyfer digwyddiadau, anfonwch e-bost i gosocial @abertawe.ac.uk - rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch syniadau'n fawr!

*Emma, Fiona, Abbie, Nick, Nic, Mike, Kayleigh, Beth*

Cyngor VISA



## Tîm Cyngor VISA

Yma i helpu

Mae Tîm Cynghori FISA yma i helpu a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol gydag ymholiadau nad ydynt yn academaidd. Yn benodol, gallwn ni helpu gyda fisas a mewnfudo, cwestiynau teuluoedd rhyngwladol ac agweddau diwylliannol ar fyw yn y DU. Rydym ni hefyd yn cynnig cyfleoedd i ryngweithio'n gymdeithasol a meithrin cymunedau drwy ein Rhaglen GO!.

Ewch i'n gwefan i archwilio ein tudalennau cyngor ac arweiniad, yn ogystal â manylion am sut gallwch chi gysylltu â ni drwy e-bost, Sgwrs Fyw, gweminarau achlysurol neu weithgareddau ar-lein eraill:

https://www.swansea.ac.uk/visa-advice/

Mae gennym ni gyfrif Instagram hefyd, lle gallwch chi ein tagio ni a phan fyddwch chi'n mynd i ddigwyddiadau, cadwch lygad am eich lluniau!

https://www.instagram.com/bywydmyfyriwr/

Beth sy'n digwydd?

Bydd ein rhaglen gymdeithasol yn llawn gweithgareddau cyffrous i wneud eich amser yma yn fwy bendigedig byth! Dyma restr o ychydig o'n digwyddiadau sydd ar ddod:

- 4 Tachwedd – Digwyddiad Bwyta GO!: Madbuns
- 12 Tachwedd – Digwyddiad cymdeithasol GO!: Cyfle Cymdeithasol - Caerwrangon -
- 13 Tachwedd Digwyddiad Cymdeithasol GO! Gemau Bwrdd
- 15 Tachwedd – Taith GO!: Caerwrangon
- 17 Tachwedd – Digwyddiad cymdeithasol GO!: Addurno Cacennau
- 19 Tachwedd - Caffi Iaith
- 20 Tachwedd – Digwyddiad cymdeithasol GO!: Gemau Bwrdd
- 21 Tachwedd - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Gwŷl Gaeaf y Glannau
- 24 Tachwedd - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Addurno Cacennau
- 26 Tachwedd - Caffi Iaith
- 1 Rhagfyr - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Creu Cardiau
- 1 Rhagfyr - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Cyfle Cymdeithasol - Caerfaddon
- 3 Rhagfyr - Taith GO!: Marchnadoedd Nadolig Caerfaddon
- 5 Rhagfyr - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Crefftwaith at Achos Da
- 8 Rhagfyr - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Creu Cardiau
- 10 Rhagfyr - Bwyta GO!: Pub on the Pond
- 12 Rhagfyr - Digwyddiad cymdeithasol GO!: Cyfle Cymdeithasol Nadoligaidd

Gellir cadw lle ar y rhain i gyd yn:

https://university-swansea.native.fm/group/5010/student-life-go



## GO! Cipolwg yn ôl ar Raglen

Digwyddiad cymdeithasol GO!: Diwrnod Croeso Rhyngwladol

Gall ein digwyddiadau GO! amrywio, o grefftau tawelu, bingo, cwis tafarn i nosweithiau ffilm! Y tro hwn, cafodd ein myfyrwyr y cyfle i gwrdd â myfyrwyr newydd a myfyrwyr presennol, dod i adnabod Abertawe, gwneud crefftau a chwrdd â Thîm GO! Roedd hyd yn oed cystadleuaeth gelf am gyfle i ennill arian i ffwrdd o'n digwyddiadau!

"Mwynheais i'r digwyddiad croeso lle gwnaethon ni greu bathodynnau, roedd yn llawer o hwyl. Hoffwn i ei wneud eto"."

"Roedd yn gyfle gwych i gael sgwrs agored gyda myfyrwyr newydd"

"Roeddwn i wrth fy modd efo'r gweithgareddau a oedd"

## Cwrdd â'r Tîm

Ym mhob rhifyn, byddwn ni'n cwrdd ag aelod arall o dîm GO!



Eich enw: Rohan Umate

Eich cwrs: Msc Gweithrediadau a Rheoli Cadwyn Gyflenwi

Cenedligrwydd: Indiaidd

**Pam dewisoch chi astudio ym Mhrifysgol Abertawe?**
Dewisais astudio ym Mhrifysgol Abertawe oherwydd safle'r Brifysgol mewn tablau cynghrair, oherwydd ei bod ymysg y prifysgolion gorau yn y DU. Rhan fawr arall oedd y profiad o fyw yn Abertawe, ar ôl gwneud ychydig o ymchwil, dysgais ei bod yn rhatach na phrifysgolion eraill o ran costau byw.

**Pam penderfynoch chi wirfoddoli fel aelod o dîm GO!?**
Mae'n beth hwyl i'w wneud! Rwy'n medru cwrdd â phobl a gwneud ffrindiau, beth gwell! Rydw i hefyd wrth fy modd yn teithio, felly mae'r digwyddiadau a'r teithiau yn ffordd wych o wneud hynny.

**Yn eich barn chi, beth yw eich prif ddyletswydd fel aelod o dîm GO!?**
Mae angen i chi helpu i gynnig arweiniad i fyfyrwyr drwy gydol eu taith fel myfyrwyr, gwneud iddynt deimlo'n ddiogel, yn gyfforddus a bod yn glust cyfeillgar iddynt.

**Pa rinweddau sydd gan aelod da o dîm GO!?**
Rwy'n credu mai'r rhinwedd bwysicaf yw bod yn gyfeillgar.

**Beth yw'r peth gorau am fod yn aelod o dîm GO! hyd yn hyn?**
Rydw i wedi gwneud ffrindiau da iawn!

**Pam rydych chi'n meddwl y dylai myfyrwyr eraill gyflwyno cais i ymuno â thîm GO!?**
Mae'n gyfle gwych i archwilio a theithio, mae bywyd yn fyr iawn. Mwynhewch eich hun a chwrdd â phobl newydd!

## Rhaglen Wirfoddoli Tîm GO!

ae gwirfoddoli yn ffordd wych o gwrdd â phobl, meithrin sgiliau cyflogadwyedd a chymryd rhan yn y gymuned.

Os hoffech wirfoddoli fel aelod o dîm GO!, ac am ragor o wybodaeth, cofrestrwch am gyfrif Discovery a chofrestrwch i fod yn Wirfoddolwr tîm GO! yma: https://volunteering.discoverysvs.org/volunteers/opportunity/1019315 1 neu e-bostiwch gosocial@swansea.ac.uk.



**AR AGOR NAWR**

Y TU MEWN I HARBWR AR Y LLAWR CYNTAF O FULTON

Y LOLFA GROESO • GLOBAL LOUNGE •

Bydd ein holl gyfryngau cymdeithasol Singleton yma!

## 5 Crefft Nadoligaidd i roi cynnig arnynt:

Nid oes angen i addurniadau Nadolig fod yn ddrud nac yn niweidiol i'r amgylchedd! Dyma rai crefftau hawdd y gallwch chi eu gwneud dros y tymor Nadoligaidd

- Sêr wedi'u creu gan ddefnyddio papur tŷ bach - Mae'r rhain yn syml ond yn ffordd effeithiol o ddod â hud y gaeaf i'ch cartref. Y cyfan sydd ei angen arnoch yw papur tŷ bach, pensil, siswrn, glud, paent gwyn, brwsh ac ychydig o gordyn.

- Addurniadau Toes Halen - ar gyfer yr addurn hwn, bydd angen ffwrn arnoch, ond maen nhw'n hawdd i'w gwneud ac yn hwyl i oedolion a phlant. Gellir eu defnyddio i oleuo eich cartref wrth iddi ddechrau tywyllu'n gynt!

- Addurniadau Cardfwrdd Dyma ffordd wych i ddefnyddio cardfwrdd sydd gennych yn y tŷ a gellir ei ddefnyddio i greu labeli neu arlantau i addurno'r tŷ flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ni allai'r prosiect cynaliadwy hwn fod yn fwy syml, ac mae'n rhywbeth i chi ei wneud ar ddiwrnod oer a glawiog.

- Craceri wedi'u gwneud gartref Mae craceri Nadolig yn diwbiau papur addurnol, traddodiad Prydeinig, sy'n gwneud sŵn 'bang' pan fydd dau berson yn eu tynnu. Mae jôc a thegan neu anrheg fach yn y craceri. Beth am ddefnyddio papur lapio sydd yn weddill a roliau papur tŷ bach i greu eich craceri Nadolig eich hunain! Gallwch eu llenwi nhw â danteithion a'ch hoff jociau am fwyd.

- Labeli wedi'u hargraffu ar glementinau Oes gennych glementinau neu orenau dros ben? Yn hytrach na'u taflu i'r bin, beth am eu hailddefnyddio i greu labeli enwau Nadolig unigryw - maen nhw'n ychwanegiad prydferth ac ystyrlon i anrheg Nadoligaidd ac yn ffordd hawdd i ychwanegu elfen at eich anrheg.

hapus

The Student Life Toolkit
Pecyn Cymorth Bywyd Myfyrwyr

**Mae Hapus yn gwrs ar-lein sy'n eich paratoi ar gyfer heriau meddyliol, emosiynol ac ymarferol yn y brifysgol. Mae'n rhoi i chi'r wybodaeth a'r adnoddau i ymdopi â phethau fel gorbryder, rheoli eich arian a hwyliau isel. Gallwch gael mynediad at y cwrs drwy eich cyfrif Canvas.**

**Mae ar gael yn Gymraeg, Saesneg, Arabeg a Tsieinëeg.**